I S - D D E D D F W R I A E T H

# 2020 Rhif LlC20 - 73

# DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

## Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Darparu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol Hanfodol dros Gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yn ystod y Pandemig COVID-19) (Gwasanaeth Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd) (Diwygio) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | 15 *Rhagfyr 2020* |
| *Yn dod i rym* | 16 *Rhagfyr 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 12(3), 45 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (**1**), ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 45(4) o'r Ddeddf honno â'r cyrff yr ymddangosai iddynt hwy eu bod yn cynrychioli'r personau y mae'r Cyfarwyddydau hyn yn ymwneud â'u tâl, yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Darparu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol Hanfodol dros Gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yn ystod y Pandemig COVID-19) (Gwasanaeth Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd) (Diwygio) 2020.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 16 Rhagfyr 2020.

(**1**) 2006 p. 42.

(3) Mae’r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol.

**Diwygio Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Darparu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol Hanfodol dros Gyfnod y Nadolig a’r Flwyddyn Newydd yn ystod y Pandemig COVID-19) (Gwasanaeth Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd) 2020**

**2.**—(1) Mae Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Darparu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol Hanfodol dros Gyfnod y Nadolig a’r Flwyddyn Newydd yn ystod y Pandemig COVID-19) (Gwasanaeth Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd) 2020 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yng Nghyfarwyddyd 4, is-baragraff (4)(b)—

(a) ym mharagraff (i), ar ôl “£275” mewnosoder “am bob 1000 o gleifion ar restr cleifion cofrestredig y practis”;

(b) ym mharagraff (ii), ar ôl “£150” mewnosoder “am bob 1000 o gleifion ar restr cleifion cofrestredig y practis”;

(c) ym mharagraff (iii), ar ôl “£165” mewnosoder “am bob 1000 o gleifion ar restr cleifion cofrestredig y practis”;

(d) ym mharagraff (iv), ar ôl “£85” mewnosoder “am bob 1000 o gleifion ar restr cleifion cofrestredig y practis”;

(e) ym mharagraff (v), ar ôl “£165” mewnosoder “am bob 1000 o gleifion ar restr cleifion cofrestredig y practis”; ac

(f) ym mharagraff (vi), ar ôl “£85” mewnosoder “am bob 1000 o gleifion ar restr cleifion cofrestredig y practis”.

(3) Yn yr Atodlen, ar ôl paragraff 14(b) mewnosoder—

“(ba) Dydd Llun, 28 Rhagfyr 2020, rhwng yr oriau 8:00 a 13:15 (5.25 awr),”.



**Llofnodwyd gan Alex Slade, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Gofal Sylfaenol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru**

Dyddiad: 15 Rhagfyr 2020